**COFNODION O GYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANRUG AR 20 MAI 2025, DRWY ZOOM AM 7:00yh.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Hefin Jones, Gwynedd Williams, Cemlyn Jones, Philip Roberts, Berwyn Parry Jones.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Ann Lawton, Rhys Parry, Richard Robinson, Beca Brown

**CLERC:** Meirion Jones

**1450. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1451 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1452. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1453. I dderbyn cofnodion cyfarfod 15 Ebrill 2025**

Derbyniwyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1454. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Philip Roberts ar y sefyllfa ddiweddara ar Tŷ'r Ysgol

Blwch Halen – Dim yn bosib gosod y blwch halen yn y safle

Trefniadau ar gyfer diwrnod 'VE' – parti bach wedi gynnal yn Menter Fachwen i ddathlu a chofio'r dyddiad

Cymeradwyaeth wedi dderbyn ar gyfer grant Cist Gwynedd am dal aelodaeth Fareshare am flwyddyn o Ebrill 2025 – Mawrth 2026

**1455. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1456. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y pwyllgor

Cynhaliwyd cyfarfod o'r is-bwyllgor (29.4.25.) i drafod ymhellach ffurflen gais cystadleuaeth Mynwent y Fynwent. Ystyriwyd oblygiadau'r cwestiynau newydd ar y ffurflen i reolau'r fynwent a chynnwys gwefan y Cyngor.

Penderfynwyd parhau gyda'r broses trwy rannu cyfrifoldeb ddrafftio ymatebion ymysg aelodau'r is-bwyllgor. Hyn i gyd i'w gorffen erbyn Mehefin 30. Yn yr un cyfarfod mabwysiadwyd polisi newydd ar gyfer Cofebion yn y Fynwent a hefyd cydnabuwyd yr angen am arwyddion newydd a pheintio ar gyfer lle parcio i'r anabl.

Gwaith adeiladu'r wal y gofod newydd wedi'i chwblhau.

Gwaith i adnewyddu stêcs cofebion wedi cwblhau.

Angen cwblhau'r gwaith pwysig o uwchraddio cyflwr cofebion "categori un" sydd yn meddwl y bydd costau yn dod o'r cyllid am 25/26. Bydd rhaid trafod ac ystyried hyn yn cyfarfod nesaf is-bwyllgor y Fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1457. I annog gwell gwasanaeth bws lleol yn arbennig gan fod dim gwasanaeth uniongyrchol rhwng Llanrug a Waunfawr (Cyng Hefin Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, ei fod wedi derbyn cwyn am y diffyg gwasanaeth bws uniongyrchol o Llanrug at Waunfawr.

**Penderfynnwyd:** Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i fynegi siom am doriad y gwasanaeth yma a pam fod y gwasanaeth wedi ei dorri heb unrhyw fath o ymgynghoriad.=, gyda copi i'r Cynghorwyr Sir.

**1458. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 13 o Fai 2025. Ymysg y materion a drafodwyd oedd edrych i fewn i'r bosibilrwydd ac os oes gofyn lleol am lleiniau o dir

Cafwyd cyfarfod gyda'r arbenigwr sydd yn rhoi asesiad ar ein coed . Roedd y cyfarfod yn fuddiol iawn ac yn ddiddorol. Mae wedi awgrymu i ni blannu coed yn lle y rhai sydd angen eu cwtogi. Byddem yn myd allan i dendr nawr i gontractwr wneud y gwaith.

Cysgodfa Bws – Adroddwyd fod y cynllun yma ar y gweill ers peth amser bellach ond am wahanol resymau, nid yw'r cynllun yn mynd rhagddo. Nodwyd mai dim ond un cais sydd wedi dderbyn am gysgodfa bws ger Glyntwrog ac fod mwy o ddefnydd ar y safle bws ger yr ysgil gynradd. Mae'r pwyllgor o'r farn yn dylid ystyried y lleoliad yma ar gyfer y gysgodfa ac i'r clerc gysylltu a swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod yr opsiynau.

Mae cyflwr rhai o'r cysgodfannau bws yn ddychrynllyd ac fod cais wedi wneud i gontractwr fynd o'r cwmpas i'w archwilio. (Cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ydi cynnal a chadw cysgodfannau bws).

Gwaith da wedi wneud gan y contractwr yn cynnal a chadw offer y caeau chwarae. Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal arnynt fis Mehefin.

Rhagdybir bydd y gwaith ar y parc sglefrio yn cael ei wneud ddiwedd y mis

Angen cyfarfod ar y caeau chwarae gyda gwneuthurwr arwyddion.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1459. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 6ed o Fai 2025. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

Cymeradwyo'r ffurflen flynyddol

Adolygu'r gyllideb

Newyddlen ddrafft – wedi chwblhau ac angen ei chyfieithu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1460. I dderbyn adroddiad Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 15.5.25. Ymysg yr eitemau a drafodwyd a penderfnnwyd arnynt oedd

1. Asesiadau risg ar gyfer y Cynllun Bwyd fel blaenoriaeth ( ar agenda'r cyfarfod nesaf)

2. "Defnyddio cerbydau ar fusnes y cyngor "  wedi ei thrafod yn y cyfarfod yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch ,8.5.24. Penderfynwyd y bydd rhaid i aelodau llenwi ffurflen eto yn datgan bod ganddynt yr yswiriant priodol i wneud hyn (trwy hefyd gyfeirio at eu cwmnïau yswiriant).

3. Adolygu polisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor a'i chynnwys ar wefan y Cyngor ( ar agenda'r cyfarfod nesaf)

4. Contractwyr : Ymchwilio i drefniadau cofrestr yswiriant trydydd parti a chofnodi sustemau o weithio yn ddiogel  ag adrodd yn nol yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1461.** **I gymeradwyo ffurflen AGAR ar gyfer 2024/2025 a'r Cadeirydd i'w arwyddo**

**Penderfynwyd:** Cymeradwywyd y ffurflen ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1462.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.** **https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 19:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: